# Cynnig dull arall i bennu oedran defaid adeg eu lladd

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 19 Medi 2019
Dyddiad cau: 31 Hydref 2019

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb i'r canlynol:

- ffermwyr
- lladd-dai
- awdurdodau gorfodi
- manwerthwyr

### Pwnc yr ymgynghoriad

Rydym ni eisiau clywed eich barn ar ein cynnig i ddiwygio deddfwriaeth Cymru a Lloegr ar bennu oedran defaid er mwyn cael gwared ar rai rhannau o'r corff adeg eu lladd. Ar gyfer defaid h?n na blwydd oed, mae angen cael gwared ar y rhannau hyn i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Byddai'r diwygiad yn caniatáu i ladd-dai ddewis dull arall ar gyfer pennu oedran defaid. Ar hyn o bryd mae lladd-dai yn cyfrif nifer dannedd parhaol dafad i benderfynu ei hoedran.

O dan y cynnig, byddai ganddyn nhw hefyd y dewis o ddefnyddio system yn seiliedig ar y dyddiad. Byddai defaid a anfonwyd i'w lladd cyn 30 Mehefin yn y flwyddyn ar ôl eu geni yn cael eu hystyried i fod yn iau na blwydd oed.

### Pwrpas yr Ymgynghoriad

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ymgynghori ar y cyd ar gynnig i ddiwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 a Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Lloegr) 2018, fel bod gan ddiwydiannau defaid yng Nghymru ac yn Lloegr y dewis i fanteisio ar randdirymiad yr Undeb Ewropeaidd (UE), sy'n galluogi defnyddio dull arall, heblaw am archwilio dannedd, i bennu oedran defaid adeg eu lladd.

Y cynnig yw cyflwyno system ddewisol newydd ar gyfer pennu oedran defaid. Byddai hyn yn golygu bod defaid a aned yn y flwyddyn galendr flaenorol ac a anfonwyd i'w lladd yn y flwyddyn galendr yn dilyn eu geni cyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin, yn cael eu hystyried yn iau na blwydd oed ac felly ni fyddai angen tynnu llinyn y cefn, gan na fyddai'n cael ei ystyried i fod yn ddeunydd risg penodedig.

## Pecyn ymgynghori

Darllenwch y pecyn ymgynghori a dysgu sut i ymateb. (Yn agor mewn ffenestr newydd)

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi’i lunio, bydd wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.